Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-2021

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 2
Rôl Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ..... 2
Gweledigaeth y Comisiynydd ar gyfer SCHTh ..... 2
Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ..... 2
Ein cymunedau ..... 3
Cefndir Deddfwriaethol ..... 4
Ein Hamcanion ar gyfer 2017-2021 ..... 5
Beth ydyn nhw? ..... 5
Pam a Sut? ..... 6
Amcan Cydraddoldeb 1 ..... 6
Amcan Cydraddoldeb 2 ..... 8
Amcan Cydraddoldeb 3 ..... 9
Amcan Cydraddoldeb 4 ..... 10
Monitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion ..... 11
Manylion Cyswllt ..... 11

**Rheoli Fersiynau**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm Dros Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 30/11/16 | Claire Bryant | Drafft |
| 0.2 | 14/12/16 | Claire Bryant | Diwygiad 1[af] |
| 0.3 | 20/12/16 | Sharon Richards | 2[il] ddiwygiad |
| 0.4 | 01/02/17 | Claire Bryant | 3[ydd] diwygiad |
| 0.5 | 13/02/17 | Claire Bryant | Drafft terfynol |
| 1.0 | 20/02/17 | Claire Bryant | Adborth gan y Bwrdd Plismona |
| 1.1 | 28/03/17 | Claire Bryant | Adborth gan y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol |
| 1.2 | 31/03/17 | Claire Bryant | Adborth gan rheolwr |

# Cyflwyniad

## Rôl Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn cael eu hethol gan y cyhoedd bob 4 blynedd i fod yn llais y bobl a dal yr heddlu i gyfrif. Mae'r CHTh yn gyfrifol am gyfanrwydd plismona, a rhaid iddo[1]:

- Sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Dyfed-Powys;
- Dal Prif Gwnstabl Dyfed-Powys i gyfrif;
- Gosod yr amcanion heddlu a throseddu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Gosod cyllideb yr heddlu a phennu'r praesept;
- Cyfrannu at y galluoedd plismona cenedlaethol a rhyngwladol a nodir gan yr Ysgrifennydd Cartref; a
- Dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol at ei gilydd er mwyn sicrhau fod blaenoriaethau lleol yn gysylltiedig â'i gilydd.

### Gweledigaeth y Comisiynydd ar gyfer SCHTh

*'Bod yn ddylanwad cadarnhaol ar bob gweithgaredd sy'n ymwneud â SCHTh drwy sicrhau bod y swyddfa'n gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol sy'n cefnogi'r weledigaeth o ddiogelu'n cymunedau gyda'n gilydd.*

### Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys[2], a gyhoeddir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn gosod y blaenoriaethau heddlu a throseddu ar gyfer y cyfnod pedair blynedd 2017 – 21. Mae'n anelu i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â diogelu'n cymunedau. Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu yw:

- **Blaenoriaeth Un: Cadw'n cymunedau'n ddiogel**
- **Blaenoriaeth Dau: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed**
- **Blaenoriaeth Tri: Diogelu'n cymunedau rhag bygythiadau difrifol**
- **Blaenoriaeth Pedwar: Cysylltu â chymunedau**

[1] Fel y nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
[2] Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, 'Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-21' http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/Police-and-Crime-Plan-DRAFT-v6-Panel.pdf

## Ein cymunedau

Mae ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y pedwar awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae'n ardal â phoblogaeth o dros 488,000 ac yn ymestyn dros hanner arwynebedd Cymru. Ardal wledig ydyw yn bennaf gyda chanolfannau bach o boblogaeth mewn trefi megis Aberystwyth, Llanelli, y Drenewydd a Hwlffordd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol gyda 2.02% o'n cymunedau'n eu nodi eu hunain fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghyfrifiad 2011, 23.04% yn nodi fod ganddynt broblem iechyd neu anabledd tymor hir sy'n cyfyngu gweithgareddau dydd i ddydd i ryw raddau, a cheir dros 17 o grefyddau wedi'u cofnodi gan bobl yn byw o fewn ein hardal Heddlu.[3] Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn amlwg o fewn ardal yr Heddlu gyda 32% o gymunedau Dyfed-Powys yn datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y Cyfrifiad diweddaraf, 18.58% ym Mhowys, 47.35% yng Ngheredigion, 43.93% yn Sir Gaerfyrddin a 19.25% yn Sir Benfro[4].

Er bod y ffigurau uchod yn dynodi gwneuthuriad ein cymunedau yn 2011, mae'n gydnabyddedig bod ein cymunedau yn newid yn barhaus. Fel sy'n gydnabyddedig ar draws Cymru gyfan, rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae hynny ynddo'i hun yn gosod heriau newydd o ran y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu a'r modd yr ydym yn rheoli ein gweithlu. Amcangyfrifir y bydd 1 o bob 4 o'r holl boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn erbyn 2030[5]. Mae nifer y cenhedloedd eraill sy'n byw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn sicr yn tyfu. Mae'n hanfodol ein bod yn dal yn gyfuwch â'r newidiadau parhaus hyn ac ein bod yn gallu addasu i ddarparu gwasanaeth cyson a phroffesiynol i'r holl gymunedau hynny yr ydym yn eu gwasanaethu.

---

[3] Data Cyfrifiad 2011, gwelwyd ar 17 Ionawr 2016, http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html
[4] Data Cyfrifiad 2011, gwelwyd ar 17 Ionawr 2016, http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html
[5] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Taflen ffeithiau cydraddoldeb ac oed', gwelwyd ar 17 Ionawr 2016, http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Factsheets/Equality_and_Age_Factsheet.sflb.ashx

# Cefndir Deddfwriaethol

Ar y 5ed o Ebrill 2011, daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd Cydraddoldeb) i rym yng Nghymru a Lloegr. Datblygwyd y Ddyletswydd Cydraddoldeb er mwyn harmoneiddio'r dyletswyddau cydraddoldeb, ac fe'i hestynnwyd ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig (Ailbennu Rhywedd, Hil, Crefydd a Chred, Oed, Anabledd, Rhyw, Cyfeiriadedd rhywiol, Priodas a Phartneriaeth Sifil a Beichiogrwydd a Mamolaeth). Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol, a orfodir gan ddeddfwriaeth eilaidd (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011).

Yn ôl y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen ar gyfer:

**i.** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
**ii.** Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn eu rhannu; ac
**iii.** Hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn eu rhannu.

Fel y sonnir uchod, mae deddfwriaeth eilaidd hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar gyfer cefnogi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011 yn nodi bod yn rhaid i ni baratoi a chyhoeddi un neu fwy o amcanion yr ydym ni'n credu y dylem eu cyflawni er mwyn gwneud unrhyw un o'r pethau y sonnir amdanynt yn amcanion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol (pwyntiau i-iii uchod).

Roedd yn rhaid cynhyrchu amcanion cydraddoldeb am y tro cyntaf erbyn 6 Ebrill 2012, ac yna o leiaf bob pedair blynedd ar ôl hynny. Cyhoeddasom ein hamcanion gwreiddiol yn 2012, a fabwysiadwyd gan y CHTh; y mae nawr yn amser i'r CHTh gynhyrchu ei amcanion cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2017-2021. Diben gosod amcanion cydraddoldeb penodol, mesuradwy yw ein helpu ni i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol yn well, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd angen eu cyflawni.

# Ein Hamcanion ar gyfer 2017-2021

## Beth ydyn nhw?

Mae'r amcanion canlynol wedi'u nodi fel y meysydd allweddol y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn bodloni'r amcanion a nodir yn y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | **Ymgysylltu**<br>Sicrhau bod holl aelodau'n cymunedau'n cael cyfle i ymgysylltu â'r Comisiynydd drwy amryw o ffyrdd. |
| **Amcan 2** | **Hygyrchedd**<br>Sicrhau bod SCHTh yn cynnig ac yn hyrwyddo dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau a gynigir gan y swyddfa. |
| **Amcan 3** | **Rhoi Grym**<br>Sicrhau bod gan unigolion â nodweddion a warchodir gefnogaeth i gyfrannu at waith SCHTh. |
| **Amcan 4** | **Ymwybyddiaeth**<br>Sicrhau bod gweithwyr a chynrychiolwyr SCHTh wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn gwella gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd. |

## Pam a sut?

| | |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 1** | **Ymgysylltu**<br>Sicrhau bod holl aelodau'n cymunedau'n cael cyfle i ymgysylltu â'r Comisiynydd drwy amryw o ffyrdd. |
| **Amcan Cynllun Heddlu a Throseddu** | Cadw ein cymunedau'n ddiogel<br>Cysylltu â chymunedau |
| **Amcanion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal<br>Meithrin perthnasau da |

### Pam y gwnaethom ei ddewis:

Mae CHTh wedi'u hethol gan breswylwyr Dyfed-Powys i gynrychioli eu barn ar blismona ac atal trosedd.

Mae aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi nodi pwysigrwydd sicrhau bod y Comisiynydd yn ymgysylltu â phob cymuned yn Nyfed-Powys, gan gynnwys cymunedau lleiafrifol, drwy ei weithgareddau ymgysylltu. Yn ogystal, nodwyd ymgysylltu'n flaenoriaeth drwy ymgynghori cyhoeddus ar ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017-21.

Mae'n bwysig bod holl weithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd yn cynnwys ac yn cynrychioli'n cymunedau. Bydd yr amcan hwn yn sicrhau bod y Comisiynydd ac aelodau staff yn ystyried ffyrdd o ymgysylltu â phreswylwyr drwy amryw o ddulliau. Er enghraifft, byddwn ni'n ymgysylltu â chymunedau er mwyn hyrwyddo diben a chodi ymwybyddiaeth ynghylch diwrnodau ''Ymgysylltu Cymunedol' y Comisiynydd ac yn uchafu cyfleoedd ar gyfer mynychu'r diwrnodau hyn; byddwn ni'n ceisio sicrhau bod unrhyw baneli ymgynghori neu wirfoddol yn cynnwys trawsdoriad o unigolion sy'n cynrychioli ehangder ein cymunedau a bydd cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n cael eu cynnig mewn nifer o leoliadau ar amserau amrywiol er mwyn bod yn hygyrch i bawb. Mae'r Comisiynydd wedi penodi Tîm Ymgysylltu Cyhoeddus fel ei eiriolwyr er mwyn gwrando ar anghenion cymunedau lleol ac ymateb iddynt.

### Beth rydym eisiau ei gyflawni:

- Cynhwysiant o fewn ein cymunedau o ran ymgysylltu â'r Comisiynydd drwy ddiwrnodau 'Ymgysylltu Cymunedol' a digwyddiadau ymgysylltu eraill.
- Cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chefndiroedd sy'n byw yn Nyfed-Powys yn ein cynlluniau gwirfoddoli ac ar ein paneli.
- Sicrhau bod preswylwyr yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gallant gysylltu â'r Comisiynydd a'i staff.

### Sut y byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn:

- Anfon Tîm Ymgysylltu Cyhoeddus y Comisiynydd i gwrdd â phobl leol i wrando arnynt ac ymateb i'w hanghenion;
- Adnabod a deall pwy sy'n byw yn ein cymunedau er mwyn sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â phob grŵp;
- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i'n staff er mwyn gwella eu dealltwriaeth ynghylch sut i gyfathrebu'n gynhwysol;
- Cynhyrchu gwybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg; ac
- Adeiladu perthnasau â'n cymunedau lleiafrifol er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Comisiynydd a'r cyfleoedd sydd ar gael i ymgysylltu ag ef.

| | |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 2** | **Hygyrchedd**<br>Sicrhau bod SCHTh yn cynnig ac yn hyrwyddo dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau a gynigir gan y swyddfa. |
| **Amcan Cynllun Heddlu a Throseddu** | Cysylltu â chymunedau<br>Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed |
| **Amcanion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal |

## Pam y gwnaethom ei ddewis:

Gall cyfathrebu o ddydd i ddydd fod yn anodd ar gyfer unigolion sydd ag anawsterau o ran gweld neu glywed, anableddau dysgu, ac anawsterau o ran cydlyniant neu lythrennedd. Fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, mae 23.04% yn nodi fod ganddynt broblem iechyd neu anabledd tymor hir sy'n cyfyngu gweithgareddau dydd i ddydd i ryw raddau[6].

Mae'n hollbwysig bod holl aelodau'r gymuned yn medru canfod gwybodaeth mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan SCHTh, yn ogystal â ffyrdd ar gyfer cysylltu â'r CHTh, drwy fformatau hygyrch. Gall hyn gynnwys Cymraeg, Saesneg, Hawdd i'w Ddarllen, Braille ac Iaith Arwyddion Prydain ymysg eraill. Hefyd, mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym, neu ar ein rhan, yn hygyrch i bawb.

## Beth rydym eisiau ei gyflawni:

- Rhoi gwybodaeth am yr hyn y mae SCHTh yn gwneud a sut i gysylltu â ni mewn amryw o fformatau cyfathrebu; a
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym, neu ar ein rhan, yn hygyrch i bobl sydd ag anawsterau cyfathrebu.

## Sut y byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn:

- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol cynrychioladol ac elusennau er mwyn canfod eu hanghenion cyfathrebu amrywiol;
- Cydweithio â grwpiau er mwyn datblygu fformatau gwybodaeth hygyrch sy'n ymwneud â'r hyn rydyn ni'n gwneud a sut i gysylltu â ni; a
- Cheisio arweiniad gan sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a gynigir gan SCHTh yn hygyrch mewn amryw o ffyrdd.

[6] Data Cyfrifiad 2011, gwelwyd ar 17 Ionawr 2016, http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html

| | |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 3** | **Rhoi Grym**<br>Sicrhau bod gan unigolion â nodweddion a warchodir gefnogaeth i gyfrannu at waith SCHTh. |
| **Amcan Cynllun Heddlu a Throseddu** | Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed<br>Cysylltu â chymunedau |
| **Amcanion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal<br>Meithrin perthnasau da |

## Pam y gwnaethom ei ddewis:

Nododd ymgynghoriad Heddlu Dyfed-Powys fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol [7] bod pobl ifainc, pobl drawsrywiol a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hymyleiddio, a pheidio â chael eu clywed neu eu parchu. Roedd canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth posibl o fewn y grwpiau hyn ynghylch sut i ddylanwadu ar benderfyniadau. Hefyd, mae angen sicrhau bod unigolion hŷn ac anabl yn cael llais drwy'r defnydd o eiriolwyr.

## Beth rydym eisiau ei gyflawni:

- Cynnwys amrediad eang o gynrychiolwyr o gymunedau Dyfed-Powys yng ngwaith SCHTh er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda phob preswylydd mewn cof.

## Sut y byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn:

- Datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ifainc i ymgysylltu â gweithgareddau SCHTh;
- Gweithio'n agos â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhwydweithiau staff er mwyn sicrhau bod safbwyntiau grwpiau lleiafrifol ledled Dyfed-Powys yn cael eu cynrychioli i'r CHTh;
- Targedu gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cynnwys grwpiau cymunedol cynrychioladol;
- Sefydlu 'Panel Dioddefwyr' sy'n cynnwys eiriolwyr o grwpiau lleiafrif er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn deall safbwyntiau dioddefwyr trosedd mewn perthynas â'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol; a
- Chydweithio â rhwydweithiau staff er mwyn deall sut y gallai CHTh ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol orau.

[7] https://www.dyfed-powys.police.uk/media/248633/strategic-equality-plan-english.pdf

| | |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 4** | **Ymwybyddiaeth**<br>Sicrhau bod gweithwyr a chynrychiolwyr SCHTh wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn gwella gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd. |
| **Amcan Cynllun Heddlu a Throseddu** | Cysylltu â chymunedau<br>Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed<br>Amddifyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol |
| **Amcanion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** | Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth |

## Pam y gwnaethom ei ddewis:

Er mwyn bodloni'n hamcanion a nodir o fewn y cynllun hwn, mae angen sicrhau bod ein staff, gwirfoddolwyr ac unrhyw un sy'n gweithio ar ran SCHTh yn gwybod beth yw dyletswyddau SCHTh a pha wasanaethau rydyn ni'n eu darparu, ac y dylem ddarparu.

## Beth rydym eisiau ei gyflawni:

- Cynyddu dealltwriaeth staff a chynrychiolwyr SCHTh o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut i deilwra cyflenwi er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid;
- Gwella ein dealltwriaeth o gymunedau fel y gallwn ymateb yn briodol i'r modd y mae cymunedau a grwpiau cymunedol penodol yn dymuno ymgysylltu.

## Sut y byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn:

- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cael cyfleoedd i fynychu sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth a digwyddiadau eiriolaeth;
- Trafod unrhyw ofynion hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein cyfarfodydd goruchwylio ac adolygiadau perfformiad; ac
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth a'r Panel Sicrhau Ansawdd er mwyn adolygu cydraddoldeb ein dull o gyflwyno gwasanaethau drwy hap samplo pryderon a chwynion a ddygwyd i sylw'r Comisiynydd drwy'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus.

## Monitro Cynnydd Yn Erbyn Ein Hamcanion

Bydd ein hadolygiad blynyddol o'r strategaeth yn canfod cynnydd tuag at ein hamcanion. Mi fydd hyn yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu.[8]. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y panel ac yn cael ei gyhoeddi er mwyn i'r cyhoedd graffu arno. Bydd hap samplo pryderon a chwynion drwy Banel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd hefyd yn cynnig adborth ar gydraddoldeb ein dull o gyflwyno gwasanaethau.

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'n hamcanion a sut fedrwn ddatblygu'n gwaith yn y maes hwn, mae croeso i chi gysylltu â'n Pennaeth Staff a'n Swyddog Monitro gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Gellir cael fformatau amgen o'r ddogfen hon ar wefan SCHTh hefyd, neu drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Ffôn:**

01267 226440

**E-bost:**

opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

**Gwefan:**

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/

[8] Mae'r Panel Heddlu a Throseddu'n gyfrifol am ddal CHTh i gyfrif. Ceir manylion am banel Dyfed-Powys yma: http://www.dppoliceandcrimepanel.org.uk/